CYMRODORIAETH TALAITH A CHADAIR POWYS

Gwytheyrn,
Pennant,
Llanbrynmair,
Powys.
SY19 7BH
Ffôn: 01650521203
ebost:eisteddfodpowys@outlook.com

LANSIO "GWOBR LLANBRYNMAIR"

Mae'n bleser gan y Gymrodoriaeth gyhoeddi lansio Gwobr Lenyddol newydd sbon, sef "Gwobr Llanbrynmair". Mae'r wobr hael hon wedi ei noddi gan un sydd yn byw yn y Dalaith, sydd yn falch iawn o hanes a diwylliant y rhan yma o Gymru, ac am weld ffyniant ei chymeriad arbennig. Dymuniad y noddwr/wraig yw i fod yn ddi-enw ac y mae'r Gymrodoriaeth yn parchu hynny.

Gwobr am waith llenyddol mewn rhyddiaith yw hon ac yn werth hyd at Bum Mil o Bunnoedd (£5,000.00) yn flynyddol. Bwriad y Wobr yw i ehangu gwybodaeth a sbarduno diddordeb ym mywyd a threftadaeth y rhan yma o Gymru, ardal yr Hen Bowys, sef Powys Gwenwynwyn a Phowys Fadog. Dymunir i'r gwaith llenyddol ddilyn y canllawiau hynny er mwyn cyrraedd nod y wobr noddedig hon.

Oherwydd effeithiau Cofid 19 mae'r Gymrodoriaeth eisoes wedi penderfynu ar gomisiwn arbennig fydd yn derbyn Gwobr Llanbrynmair yn 2022, ac edrychwn ymlaen at hynny. Mae'n bleser gennym yn awr, felly, wahodd ceisiadau i'w gwobrwyo o bosib yn 2023 ac yn y blynyddoedd i ddilyn. Mae'r Wobr yn agored i Gymru gyfan – a'r byd! i geisio amdani. Mae'r Gymrodoriaeth yn edrych ymlaen at helfa o ryddiaith gyffrous, ac mewn amrywiol ffurfiau, ac yn dymuno pob ysbrydoliaeth i'r cystadleuwyr.

Gellir gwneud cais am fanylion cystadlu trwy fynd ar y we i www.eisteddfod powys,com
neu anfon am y manylion at y Bnr. Dafydd. M. Lewis manylion i:
dafyddmorgan53@gmail.com

07870996220 (symudol)

01938 820330 (ffon)

Cyfeiriad

Nyth y Dryw,
3 Ffordd Nant Goch,
Llangadfan,
Powys
SY21 0PW